# PWYLLGOR ARDAL DWYFOR, 12-12-11

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Robert J.Wright (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr**: Stephen Churchman, Margaret Griffith, Alwyn Gruffydd, John Gwilym Jones, W.Penri Jones, Glyn Roberts, Guto Rhys Tomos, Owain Williams ac R.H. Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Aled Davies, (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Gwenan Parry, (Pennaeth Gofal Cwsmer), Alwyn Evans Jones, (Pennaeth Adnoddau Dynol), Dr Gwynne Jones, (Prif Weithredwr Cwmni Cynnal) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Cadeirydd:** Oherwydd salwch, nododd y Cadeirydd y cyarfod nad oedd yn dymuno cadeirio'r cyfarfod hwn. Yn absenoldeb yr Is-gadeirydd, penderfynwyd rhoi'r Rheolau Sefydlog o'r neilltu ac ethol y cyn cadeirydd, y Cynghorydd Margaret Griffith, i gadeirio'r cyfarfod.

Cydymdeimlo:Cyfeiriwyd at farwolaeth ddisymwth mab y Cynghorydd Trevor Edwards a chydymdeimlwyd â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Yn ogystal, cyfeiriodd y Cynghorydd Margaret Griffith at drychineb diweddar oddi ar arfordir Llŷn pryd y bu farw chwech o forwyr o Rwsia. Cydymdeimlodd a'u teuluoedd a thalodd deyrnged i aelodau'r badau achub lleol a fu allan mewn tywydd erchyll yn cynnig cymorth.

Mewn ymateb, nododd y Cynghorydd Robert J. Wright, a oedd yn rhan o'r ymdrech fel llywiwr Bad Achub Pwllheli, fod gwaith pob aelod o griwiau'r badau achub i'w edmygu a diolchodd iddynt am eu hymdrechion.

Ychwanegodd fod llythyr gan y Cynghorydd Liz Saville Roberts wedi ei gyhoeddi yn y wasg leol, a diolchodd am y sylwadau a wnaed ynddo ac am gefnogaeth trigolion Llŷn yn gyffredinol.

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr: Simon Glyn, Selwyn Griffiths, Llinos Merks, Peter Read, Liz Saville Roberts, Ieuan Roberts a Sion Selwyn Roberts.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2011, fel rhai cywir.

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ADRAN RHEOLEIDDIO

i) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio yn amlinellu gweithgareddau'r Adran yn 2010/11 a'r prif amcanion ar gyfer 2011/12.

ii) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a nodwyd:

- bod cwynion amrywiol wedi eu derbyn yn dilyn ad-drefniant diweddar i wasanaeth Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor;
- bod pryder oherwydd bod aelodau lleol yn colli cyfle i drafod ceisiadau gyda swyddogion cynllunio ar adegau;
- bod aelodau'n pryderu parthed y drefn o gyflwyno ceisiadau mewn cyfarfodydd a'r trafferthion a geir wrth geisio cysylltu hefo'r gwasanaeth;
- bod pryder ac anfodlonrwydd yn bodoli ynglŷn â diffyg i ymateb i alwadau a wneir gan aelodau o'r cyhoedd;

iii) Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Pennaeth fod y sefyllfa wedi cael ei monitro am gyfnod o chwe mis. Yn sgil hyn, nododd fod y wybodaeth sydd ar gael am y gwasanaeth o safbwynt yr ymholiadau sy'n cael eu gwneud ac ati yn well nag y bu erioed.

Ychwanegodd fod oddeutu 90% i 95% o'r newidiadau'n gweithio'n effeithiol. Yn dilyn y cyfnod monitro, gwnaed adolygiad pellach gyda rhai newidiadau'n cael eu haddasu. Caiff y rhain eu rhedeg am gyfnod o rhwng 8 a 10 wythnos ac hyd yma gwelwyd fod y mân addasiadau'n llwyddiannus.

Nododd y Pennaeth ymhellach fod cyfarfodydd wedi eu cynnal gydag asiantwyr a chlercod Cynghorau Cymuned er mwyn hwyluso a chryfhau'r drefn.

Ychwanegodd y dylai barn aelodau ar geisiadau fod yn seiliedig ar rinweddau'r cais yn hytrach na barn swyddogion. Fodd bynnag, gwneir ymdrechion i sicrhau fod yr holl wybodaeth ar gael i aelodau yn electronig ar unrhyw adeg. Yn ogystal mae rhaglen ar y gweill i sicrhau fod swyddog ar gael i hyfforddi aelodau ar sut i gael y wybodaeth oddi ar y system.

Nododd fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ymateb i alwadau'r cyhoedd o fewn tridiau.Ychwanegodd fod materion cyfathrebu hefo'r gwasanaeth wedi cael ystyriaeth fel rhan o'r newidiadau diweddaraf.

Eglurodd fod swyddog cynllunio'n ymweld â safleoedd ac yn edrych ar y materion cynllunio perthnasol pan fydd ceisiadau'n cael eu derbyn. Bydd lluniau'n cael eu tynnu gan y swyddog yn ystod yr ymweliad, a'r rhain yn unig gaiff eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwrthrychol.

Mewn ymateb i ymholiadau pellach, nododd y Pennaeth fod pob adroddiad cynllunio yn cymryd yr holl sylwadau a dderbyniwyd i ystyriaeth gyda gwahaniaeth barn yn cael ei adlewyrchu'n deg. Cadarnhaodd nad yw'r holl lythyrau sy'n cael eu derbyn yn cael eu cynnwys gyda'r rhaglen a bod hyn yn rhan o'r newid a gytunwyd gydag aelodau.

Cyfeiriwyd yn yr adroddiad at awydd a brwdfrydedd y staff i gyfranogi tuag at drawsnewid y gwasanaethau a ddarperir fel bod y Cyngor yn medru eu darparu yn fwy effeithlon, er bod hyn yn gallu arwain at golli swyddi o fewn y gwasanaethau a thimau unigol.
'Roedd aelod yn awyddus i ategu'r ganmoliaeth yma.

iv) Mynegwyd pryder gan aelod o safbwynt yr ymgynghori ynglŷn â Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gydag Ynys Môn. Nododd fod angen cwblhau'r gwaith erbyn 13 Ionawr a chredai fod yr amserlen yn rhy gaeth.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth fod yr amserlen wedi ei chytuno ac mai rhan ddechreuol o'r ymgynghoriad oedd dan sylw ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

**4. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WAITH YR ADRAN ADNODDAU DYNOL**

i) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Adnoddau Dynol yn rhoi trosolwg o berfformiad yr Adran yn 2010/11 a'r prif faterion yr Adran ar gyfer 2011/12.

ii) Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Pennaeth fod proses deg, gytbwys a chyfrinachol yn weithredol o fewn y Cyngor ar gyfer ymdrin â bwlio. Ychwanegodd mai ychydig iawn o achosion sydd wedi codi ond y gallasai sefyllfaoedd anodd godi a bod angen ymateb i bob achos yn sensitif.

iii) Cyfeiriodd aelod at gamau sy'n cael eu cymryd ar adegau pan mae swyddi o fewn y Cyngor yn cael eu colli.

Esboniodd y Pennaeth fod rhaglen gynhwysfawr wedi eu sefydlu ar gyfer rhoi pob cymorth posib i'r rhai sy'n colli eu swyddi. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau agos gyda chanolfannau gwaith ac asiantaethau eraill, a phwysleisiodd y Pennaeth fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i adleoli'r gweithwyr o fewn y Cyngor.

Yn sgil adleoli caiff hyfforddiant angenrheidiol ei ddarparu a cheir cefnogaeth gan y Cynulliad ar gyfer hyn.

iv) Mewn ymateb i ymholiad, nododd y Pennaeth fod sefydlu'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi bod o fudd. Ychwanegodd fod y Cynllun yn creu cyfle i fynd at weithwyr mewn amrywiol feysydd a chyflwyno profion iechyd sylfaenol iddynt.

Yn sgil hyn ac o ganlyniad i brosiect lleihau absenoldebau salwch cyffredinol a hyfforddiant codi a thrin pwysau, gwelwyd gostyngiad yn nifer absenoldebau'r Cyngor eleni. Ychwanegodd y Pennaeth mai'r nôd oedd sicrhau gwelliant pellach fel y bydd ystadegau Gwynedd y gorau yng Nghymru.

Nododd y Pennaeth fod Cyngor Gwynedd wedi ennill Lefel Aur o'r Safon Iechyd Cenedlaethol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ADRAN GOFAL CWSMER**

i) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Gofal Cwsmer yn amlinellu dyletswyddau'r saith uned busnes sy'n rhan o'r Adran sef: **Eiddo, Technoleg Gwybodaeth, Cyfathrebu, Cyswllt Cwsmer, Llyfrgelloedd a Gwybodaeth, Rheoli Gwybodaeth a Chynllunio Argyfwng.**

ii) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau, ac mewn ymateb i ymholiad, nododd y Pennaeth fod pedwar rhifyn o newyddlen y Cyngor 'Newyddion Gwynedd', wedi bod yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Ychwanegodd fod mwy o hysbysebion yn cael eu derbyn erbyn hyn, a bod hyn yn cyfrannu'n sylweddol at gostau pob rhifyn – mae hwn yn un o'r arbedion sydd wedi ei dderbyn gan y Cyngor.

iii) O safbwynt cyllideb yr Adran, nodwyd bod y gyllideb refeniw yn £2.2 miliwn a bod yr Adran, fel pob adran arall o fewn y Cyngor, gyda chyfres o dargedau i wireddu arbedion o dan Strategaeth £16 miliwn; y rhaglen o brosiectau effeithlonrwydd ac arbedion corfforaethol..

iii) Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â Gwasanaeth Llyfrgell, eglurodd y Pennaeth fod Cyngor Gwynedd yn safle 17 allan o 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru o safbwynt y defnydd a wneir o lyfrgelloedd a bod yr angen i wella yn amlwg.

Ychwanegodd fod cyfanswm y defnydd o'r llyfrgelloedd yn debyg iawn eleni a'r flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 5% yn y nifer yr ymweliadau â'r llyfrgelloedd gyda'r nifer y rhai sy'n defnyddio'r adnoddau ar lein yn cynyddu. Pwysleisiodd y Pennaeth y dylid annog mwy i ymweld â'r llyfrgelloedd a manteisio'n llawn ar y gweithgareddau a'r adnoddau sydd ynddynt.

Gofynnodd aelod a fyddai gwasanaethau megis cynllun 'Kindle' sy'n ei gwneud yn bosib i lawr lwytho llyfrau gael effaith ar wasanaeth llyfrgelloedd Gwynedd. Mewn ymateb cyfeiriodd y Pennaeth at wasanaeth sy'n galluogi aelodau llyfrgell i lawr lwytho Llyfrau Llafar oedolion a phlant. Yn ogystal mae trafodaethau'n cael eu cynnal yn genedlaethol ynglŷn â chynnig e-lyfrau trwy lyfrgelloedd.

Esboniodd na ellir defnyddio cynllun 'Kindle' mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ym Mhrydain ar hyn o bryd oherwydd problem cytundebu rhyngwladol.

iv) Mewn ymateb i ymholiad, amlinellodd y Pennaeth y gwaith a wnaed mewn cysylltiad â chynllunio ar gyfer argyfwng. Nododd fod dau ymarferiad wedi eu cynnal ar gyfer uwch swyddogion y Cyngor a bod y rhain wedi bod yn fuddiol..

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GWASANAETH ADDYSG

i) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg gan Dr Gwynne Jones, (Prif Weithredwr Cwmni Cynnal).

ii) Arweiniwyd yr aelodau drwy'r adroddiad gyda sylw penodol yn cael ei roi i brif faterion penodol.

iii) Nododd ymhellach fod:

- perfformiad Gwynedd yng Nghyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2 yn dda, ond bod y lefelau uwch angen sylw
- gwelliannau gyda rhai pynciau sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 3 yn adlewyrchu ymdrechion ysgolion
- perfformiad Gwynedd yng Nghyfnod Allweddol 3 yn gyffredinol dda ond y lefelau uwch angen sylw

iv) Esboniwyd fod gwybodaeth ychwanegol wedi ei dderbyn ers darparu'r adroddiad mewn cysylltiad â pherfformiad Gwynedd yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn sgil hyn cadarnhawyd fod safleoedd Gwynedd fel a ganlyn:

*Trothwy Lefel 1 - 4*
*Trothwy Lefel 2 – 8*
*Sgôr pwyntiau ehangach - 1*
*Dangosydd Pynciau craidd – 5*
*Trothwy Lefel 2+ - 6*

Gwelwyd felly fod perfformiad Gwynedd, ar draws yr holl ysgolion, yng Nghyfnod Allweddol 4 yn gyffredinol dda.

v) Rhoddwyd cyfle i aelodau i wneud sylwadau ac i ofyn cwestiynau a chyfeiriwyd at y drefn y graddau arolygu.

Mewn ymateb i'r ymholiad, cyfeiriwyd at y fframwaith arolygu a nodwyd y gallai gwendid o unrhyw fath mewn 'dangosydd ansawdd' arwain at ddilyniant o fonitro gan yr awdurdod er bod canlyniadau ym mhob cwestiwn allweddol, y rhagolygon gwella a'r perfformiad presennol yn dda.

vi) Esboniwyd fod y niferoedd a nodir mewn cysylltiad â chael cinio ysgol am ddim yn seiliedig ar y rhai sydd â hawl i gael cinio yn hytrach na'r rhai sy'n cymryd cinio. Cadarnhawyd fod defnyddio cerdyn prydau bwyd yn bosibilrwydd ar gyfer osgoi unrhyw stigma a allasai fodoli.

Cadarnhaodd fod rhai wedi treialu cynllun cardiau bwyd a bod yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nododd y dylid ystyried dau fater, sef y gost o sefydlu'r cynllun, a thrafferthion a allasai godi pe byddai disgyblion yn colli cerdyn. Awgrymodd y gallai offer cwbl wahanol fod ar gael yn y tymor hir.

vii) Mewn ymateb i ymholiad, cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn â'r drefn 'bandio' yn amlinellu'r modd y caiff dangosyddion allweddol eu defnyddio er mwyn gosod ysgolion mewn 'bandiau' sy'n amrywio o'r safon gorau, sef 'band 1' i'r safon isaf, sef 'band 5'.

Nododd Dr Gwynne Jones fod trefn y 'bandiau' a gyflwynwyd yr wythnos flaenorol yn seiliedig ar waith blwyddyn yn unig. 'Roedd o'r farn y byddai'n decach i astudio tueddiadau dros gyfnod o dair blynedd.

Mewn ymateb i ymholiad pellach, nododd ei bod yn gynamserol i gysylltu 'bandio' gyda maint ysgolion. Cyfeiriwyd hefyd at y bwlch sy'n bodoli rhwng perfformiadau ysgolion Cymru ag ysgolion Lloegr a'r Alban. Er bod gwelliannau i'w gweld yng Ngwynedd, nododd aelod fod y bwlch yma'n cynyddu.

Mewn ymateb, nododd Dr Gwynne Jones mai'r nôd yng Ngwynedd yw gwella safonau'n gyson fel y gellir sicrhau fod pob disgybl ym mhob ysgol yn cyrraedd ei botensial yn llawn, ac nad yw hyn wedi ei gyflawni hyd yma.

Nododd ymhellach y byddai newidiadau a fyddai o fudd, pe byddai'r gyfundrefn yn derbyn ychwaneg o arian, yn cynnwys sawl peth megis cael mwy o athrawon, ychwaneg o adnoddau yn ogystal â chael adnoddau fyddai'n sicrhau fod athrawon yn cael mynediad at gyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol gydol eu gyrfa.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL ADRAN DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL

i) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol yn cyfeirio at beth o'r gwaith y bu'r Adran yn gyfrifol amdano yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Yn ogystal, nodwyd rhai datblygiadau penodol sy'n rhaid ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Wrth edrych ymlaen, nododd y Pennaeth y bydd yr Adran yn canolbwyntio llawer o'i hamser a'i hadnoddau er sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r trefniadau llywodraethu newydd yn dilyn etholiadau Mai 2012.

ii) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau wneud sylwadau a gofyn cwestiynau, ac mewn ymateb i ymholiad, nododd y Pennaeth fod y pecyn gwybodaeth wedi ei ddarparu ar gyfer darpar ymgeiswyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y disgwyliadau a'r gofynion o fod yn gynghorydd cyn rhoi eu henwau ymlaen.

Ychwanegodd fod y penderfyniad i symud ymlaen i gynhyrchu'r pecyn gwybodaeth yn sgil trafodaeth gyda'r grwpiau gwleidyddol yn y Grŵp Busnes, ac mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan aelodau newydd a ddaeth i'r Cyngor yn 2008.

Hyd yma dosbarthwyd tua 130 o becynnau a chafwyd ymateb cadarnhaol. Ychwanegodd y Pennaeth y gellid rhoi ystyriaeth bellach i werth y pecynnau drwy gymharu, cystal a bo modd, nifer y rhai sy'n derbyn pecynnau gyda'r rhai fydd yn rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer etholiad.

Nododd aelodau fod yr arweiniad a geir yn y pecyn o werth.

iii) O safbwynt arbedion, nododd aelod fod un o'i gyd-gynghorwyr wedi awgrymu y gellid osgoi'r arfer o argraffu adroddiadau dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd drwy ddarparu rhai yn ôl dewis aelodau.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth y bydd awgrym cryf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor newydd ym Mis Mai 2012 ynglŷn â chyflwyno'r holl adroddiadau'n electronig ac osgoi argraffu'n gyfan gwbl. Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Bwrdd cyn mis Mai 2012 yn ymdrin â hyn gyda rhai aelodau'n treialu'r offer angenrheidiol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 8. ADOLYGU'R DOSBARTHIADAU PLEIDLEISIO A'R MANNAU PLEIDLEISIO 2011

i) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol yn egluro ei bod yn ofynnol i'r Cyngor adolygu pob dosbarth bleidleisio a mannau pleidleisio bob pedair blynedd. Cynhaliwyd y cyntaf yn 2007 a chynhaliwyd Adolygiad 2011 rhwng mis Medi a Hydref.

ii) Cyflwynwyd atodlenni yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghyd ag ymateb y Swyddog Canlyniadau iddynt. Cafwyd hefyd argymhellion parthed newid y drefn lle bo hynny'n berthnasol.

iii) O fewn yr argymhellion cyfeiriwyd at y posibilrwydd o gau tair gorsaf bleidleisio, oherwydd nifer yr etholwyr yn y Dosbarthiadau Pleidleisio, sef:
- Festri Capel Soar, Bryncir yn Nosbarth Pleidleisio Dolbenmaen/Bryncir, gan symud y gofrestr i Garn Dolbenmaen - 86 o etholwyr;
- Canolfan Prenteg yn Nosbarth Pleidleisio Dolbenmaen/Prenteg gan symud y gofrestr i Dremadog - 93 o etholwyr;
- Capel Bethania Pistyll yn Nosbarth Pleidleisio Pistyll gan symud y gofrestr i Lithfaen - 120 o etholwyr.

iv) Gwnaed cywiriad i'r adroddiad ysgrifenedig gan nodi yn yr adran ar y canlyniadau ymarferol mai trigolion Prenteg fyddai'n teithio oddeutu 2 filltir i Dremadog pe byddai'r Orsaf Bleidleisio yng Nghanolfan Prenteg yn cau, yn hytrach na thrigolion 'Bryncir' a oedd wedi ei nodi.

v) Nododd aelod ei fod yn cefnogi sylwadau a wnaed gan Gyngor Cymuned Dolbenmaen, oedd yn gwrthwynebu cau Gorsaf Bleidleisio Prenteg a symud y gofrestr i Dremadog oherwydd y byddai hyn yn golygu mynd tu allan i gymuned Dolbenmaen.

Ychwanegodd yr aelod mai unwaith bob pedair blynedd yn unig y caiff etholiad ei gynnal ac mai prin iawn fyddai'r arbediad ariannol i'r Cyngor yn sgil cau gorsaf bleidleisio. O safbwynt cau Gorsaf Prenteg yn benodol, dywedodd y gallasai sefyllfa godi pryd y byddai trigolion Prenteg yn gorfod teithio i'r orsaf yn Nhremadog er nad oedd etholiad yn cael ei chynnal ar gyfer y gymuned yno.

Nododd yr aelod fod cyfleusterau da yng Nghanolfan Prenteg ac y dylid gwneud defnydd ohonynt a hwyluso democratiaeth yn sgil hynny.

vi) Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol y gellid nodi'r angen i gadw gorsafoedd pleidleisio o fewn y gymuned fel dadl gref dros gadw gorsaf Prenteg.

vii) O safbwynt gorsaf Bryncir, nododd aelod arall fod nifer o'r etholwyr yn teithio ar gyfer pleidleisio eisoes ac na fyddai symud i Garn Dolbenmaen yn achosi trafferth eithriadol.

viii) Mewn ymateb i ymholiadau, cadarnhaodd y Pennaeth fod rhybudd cyhoeddus o'r ` adolygiad wedi ei gyhoeddi ond nad oedd gwybodaeth ynglŷn â'r argymhellion wedi ei hysbysebu'n ffurfiol i'r cyhoedd, heblaw trwy'r cynghorau cymuned a'r aelod lleol. Fodd bynnag 'roedd rhaglen y cyfarfod hwn yn cynnwys yr holl argymhellion ac wedi ei chynnwys ar wefan y Cyngor.

Ychwanegodd y byddai etholwyr yn derbyn gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw benderfyniad i gau gorsaf bleidleisio gyda phleidlais bost yn cael ei gynnig iddynt.

ix) Cyfeiriodd aelod arall at yr argymhelliad i gau gorsaf bleidleisio Pistyll a nododd y gallasai'r daith i Lithfaen greu cryn anhawster, yn arbennig i'r henoed. Ychwanegodd fod yr ardal yn wasgaredig ac y byddai rhai o'r etholwyr yn gorfod teithio oddeutu tair milltir a hanner i Lithfaen yn hytrach na dwy filltir a hanner fel ag yr oedd wedi ei nodi yn yr adroddiad.

x) Diolchodd aelod am y gwaith a wnaed i gywiro anghysondebau a oedd yn bodoli ynglŷn â mannau pleidleisio yn ward Bryncroes, (Botwnnog). Awgrymodd

ymhellach y gellid gwneud defnydd o Ganolfan Llangwnnadl sydd bellach wedi ei hadnewyddu.

xi) Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol y byddai defnyddio Canolfan Llangwnnadl yn golygu creu gorsaf newydd. Esboniodd mai adolygiad seneddol oedd dan sylw yn hytrach na threfn etholiadol leol.

**PENDERFYNWYD:**

**a) Argymell i'r Cyngor y dylid cau gorsaf bleidleisio Bryncir, gan mai 86 o etholwyr sydd ar y gofrestr, a bod y gofrestr yn cael ei symud i Garn Dolbenmaen.**

**b) Peidio argymell i'r Cyngor y dylid cau gorsaf bleidleisio Prenteg gan nodi yn bennaf y byddai symud y gofrestr i Dremadog yn golygu y byddai'r etholwyr yn gorfod teithio tu allan i'w cymuned i bleidleisio**

**c) Peidio ag argymell i'r Cyngor y dylid cau gorsaf bleidleisio Pistyll gan nodi yn bennaf y byddai teithio i Lithfaen yn drafferthus i lawer, yn arbennig yr henoed.**

Dechreuodd y cyfarfod am 5.15pm a daeth i ben am 7:15pm